



CYFOETH NATURIOL CYMRU DIWEDDARIAD

Cyhoeddwyd: 11 Hydref 2019

CYFUNO, AMRYWIO AC ADOLYGU'R TRWYDDEDU YN FFATRI BWRDD GRONYNNAU'R WAUN

Mae'r nodyn hwn yn diweddarau ein safbwynt trwyddedu blaenorol ar gyfer Kronospan Ltd (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018), a atodir isod yn Atodiad 1.

Mae dyddiad disgwyliedig y penderfyniad ar gyfer Cyfnod 1 ym mhroses amrywio'r drwydded, sef diwedd mis Mai 2019, wedi'i oedi.

Ers cael cais Kronospan ym mis Mai 2018 a chychwyn ein penderfyniad manwl, rydym wedi gofyn am lawer o wybodaeth bellach gan Kronospan. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ei weithgareddau, gweithdrefnau gweithredol, allyriadau a strwythur y cwmni, a hynny er mwyn helpu gyda'n hasesiadau a sicrhau y bydd yn cydymffurfio â dogfennau Casgliad y Technegau Gorau sydd ar Gael ('BAT'). Mae'r ceisiadau hyn am wybodaeth wedi'u creu wrth inni feithrin dealltwriaeth well o'r gweithgareddau presennol ac arfaethedig yn Kronospan. Bu'r cwestiynau a fynegwyd yn ein hymgyngghoriad cyhoeddus cychwynnol ar y cais hefyd yn werthfawr wrth lunio'r ceisiadau hyn am wybodaeth bellach.

Mae sawl mater i'w datrys o hyd, a bu inni roi trydydd Hysbysiad Atodlen 5 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) i Kronospan yn gofyn am wybodaeth bellach fel y gallem gwblhau ein hasesiad technegol o'i gais ar 23 Gorffennaf 2019. Darparodd Kronospan ei ymateb i'r cais hwn ar 4 Hydref, yr ydym wrthi'n ei adolygu. O ganlyniad, erbyn hyn rydym yn disgwyl y bydd Cyfnod 1 yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2020. Amcangyfrifir y bydd Cyfnod 2 (a fydd yn sicrhau y cydymffurfir â Nodiadau Cyfeirio'r Technegau Gorau sydd ar Gael (BREF) o ran gweithgaredd eilaidd) wedi'i gwblhau erbyn haf 2020, er y gallai hyn newid.

Hoffem sicrhau ein bod yn cynnal asesiad cyflawn a thrylwyr o weithgareddau yn y safle cyn cwblhau ein penderfyniad, a hynny er mwyn sicrhau bod trwydded sy'n "addas i'r diben" yn amgylcheddol yn cael ei rhoi sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol ac o ran y Technegau Gorau sydd ar Gael.

Rydym yn parhau i fod â pherthynas waith dda â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystod y cyfnod trosglwyddo rheoleiddiol hwn, ac rydym yn ymgysylltu â Kronospan ar y materion sydd i'w datrys. Rydym hefyd yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Cyswllt Amgylcheddol y Waun a Llywodraeth Cymru. Yn olaf, rydym wedi ymrwymo o hyd i gynnal sesiwn galw

heibio bellach yn y Waun i ymgynghori ar y penderfyniad drafft ar gyfer cyfnod 1 yr amrywiad, gyda bwriad presennol o'i gynnal yn gynnar yn 2020.

ATODIAD 1

CYFUNO, AMRYWIO AC ADOLYGU'R TRWYDDEDU YN

FFATRI BWRDD GRONYNNAU'R WAUN ('y Gosodiad')

1. CEFNDIR

Mae Kronospan Ltd wedi bod yn gweithredu ffatri cynhyrchu byrddau yn y Waun, gogledd Cymru, ers nifer o flynyddoedd. Mae angen nifer o drwyddedau amgylcheddol ar gyfer y gweithgareddau sydd ynghlwm â'r gwaith cynhyrchu'r byrddau – â'u prif ddiben yw rheoli lefelau'r allyriadau niweidiol sy'n deillio o'r gweithgareddau a sicrhau bod y technegau a ddefnyddir yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn unol â diweddariadau technegol a safonau'r diwydiant. Gelwir y safonau hyn yn y 'Technegau Gorau sydd ar Gael' ('BAT'), y maent yn cael eu hesbonio'n fwy manwl isod.

Mae'r gweithgareddau y mae angen trwyddedau amgylcheddol¹ arnynt yn y Gosodiad wedi bod yn destun cyfarwyddiadau amrywiol gan y llywodraeth (ceir esboniad pellach isod). Roedd y cyfarwyddyd cyntaf yn 2003² a gwnaeth hollti'r gwaith rheoleiddio rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (sydd bellach wedi'i chynnwys yn Cyfoeth Naturiol Cymru). Yn 2014,³ gwnaeth Gweinidogion Cymru gyflwyno cyfarwyddyd pellach, a ychwanegodd weithgareddau ond a gynhaliodd y rhaniad yn y gwaith rheoleiddio.

Ym mis Mawrth 2018, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno cyfarwyddyd pellach ('Cyfarwyddyd 2018'), sy'n ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gyfuno'r trwyddedau presennol ar gyfer y Gosodiad yn un ac, ar ôl hynny, cynnal yr holl swyddogaethau rheoleiddio sy'n ymwneud â'r drwydded honno. ⁴ O'r adeg honno ymlaen, ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam bellach yn rheoleiddio gweithgareddau yn y Gosodiad. Yn y bôn, bydd hyn yn 'normaleiddio'r' gwaith o reoleiddio yn y Gosodiad nad yw'n destun unrhyw gyfarwyddyd gweinidogol – h.y. un rheolydd amgylcheddol.

Yn ogystal, mae Kronospan Ltd yn dymuno ychwanegu gweithgareddau pellach i'r Gosodiad. Bydd angen amrywio'r trwyddedau ar gyfer yr

¹ Mae hyn yn golygu trwyddedau sy'n ofynnol gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016.

² Gellir gwneud cais i lawrlwytho'r cyfarwyddyd hwn gan permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

³ Gellir gwneud cais i'w lawrlwytho gan permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

⁴ Gweler Cyfarwyddyd 2018 ynghlwm.

ychwanegiadau hyn, ac mae cais am amrywiad wedi'i wneud i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dechrau'r broses o gyfuno ac amrywio'r trwyddedau, a bydd hefyd yn adolygu'r amodau a fydd yn hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau ynghylch y technegau gorau sydd ar gael.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyriol o ba mor wahanol yw'r sefyllfa hon oherwydd cymhlethdod a nifer y tasgau addasu sydd eu hangen, y cysylltiadau posibl rhwng y tasgau hynny, a hanes y ddwy drwydded a dau reoleiddwr ar wahân.

Er y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal adolygiad llawn, rydym yn rhagweld y bydd y broses gyflawn o addasu'r trwyddedau yn debygol o gynnwys dilyniant o benderfyniadau yn ystod cyfnodau a gynlluniwyd i'w cyfuno, asesu'r cais am amrywiad yn llawn a chyflawni cydymffurfiaeth, yn enwedig o ran Cyfarwyddyd 2018, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, a gofynion y Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhagweld y bydd y dilyniant o benderfyniadau yn cael ei gynnal ar yr un pryd, ond mae'n rhagweld y bydd rhywfaint o orgyffwrdd o ran yr ystyriaethau. O ganlyniad, ni fydd fersiwn derfynol y drwydded yn cael ei chwblhau tan y penderfyniad terfynol yn y broses cam wrth gam a ragwelir. Fodd bynnag, bydd unrhyw newidiadau dros dro sy'n cael eu gwneud yn ystod y broses addasu cam wrth gam yn dod i rym ar y dyddiad cyflwyno. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod nad y trefniadau rheoleiddio a amlygir yn y papur hwn yw'r unig bethau sydd i'w hystyried yn ystod y broses hon, a bydd y rhain yn cael eu trin yn briodol mewn unrhyw nodyn esboniadol neu ddogfen benderfynu sydd ynghlwm ag unrhyw addasiad a wneir i'r drwydded.

Mae'r tasgau sydd yn rhan o gyflawni hyn yn gymhleth ac yn dechnegol, felly mae'r ddogfen hon yn ceisio crynhoi'r broses y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dilyn, yr amserlenni disgwylidig dan sylw, ei ddull o ran ymgynghori, a rhywfaint o'r agweddau technegol a chyfreithiol ynghlwm. Ei bwriad yw bod yn ganllaw 'cyfeirio' dangosol ar gyfer y rhai hynny sydd â diddordeb yn y Gosodiad, er mwyn eu cynorthwyo i gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Fodd bynnag, nid yw wedi'i bwriadu fel datganiad o'r gyfraith neu fel methodoleg ragnodol.

Byddwn yn cyfeirio at nifer o ddogfennau yn y nodyn hwn, ac mae modd gwneud cais i lawrlwytho'r rhain gan permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

2. Y TRWYDDEDAU PRESENNOL

Ceir dwy drwydded amgylcheddol ar hyn o bryd ar gyfer y gweithgareddau yn y Gosodiad. Trwydded Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw'r brif drwydded gweithgarwch. Mae'r ail drwydded ar gyfer rhai gweithgareddau ychwanegol. Gellir gwneud cais i lawrlwytho'r ddwy drwydded gan permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae trwydded Wrecsam WCBC/IPPC/03/KR(V3) yn ymdrin â'r gweithgareddau canlynol: cynhyrchu byrddau gronynnau a byrddau ffibr dwysedd canolig, dwy ffatri biomas, melin lifio a rhes gynhyrchu ar gyfer lloriau lamedig, yn ogystal â rhai peiriannau cynhyrchu gwres. Mae darparu a storio deunyddiau crai a thrin, prosesu a storio gwastraff yn weithgareddau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r drwydded.

Mae trwydded bresennol Cyfoeth Naturiol Cymru (EPR/BW9999IG) yn ymdrin â'r gweithgareddau canlynol: cynhyrchu fformaldehid drwy ocsideiddio methanol yn gatalytig, cynhyrchu fformaldehid wrea a resin fformaldehid wrea-melamin, a gweithredu ffatri hylosgi a bwerir gan nwy naturiol. Mae'r broses drwytho papurau VITS a gweithredu lagwnau dŵr arwyneb 1, 2 a 3 yn weithgareddau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r drwydded.

Mae'r cais presennol am amrywiad yn ymwneud â chynnwys y gweithgareddau canlynol sy'n bodoli eisoes yn nhrwydded amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y cyfleuster a reoleiddir: cynhyrchu byrddau gronynnau a byrddau ffibr dwysedd canolig, dwy ffatri biomas, melin lifio a rhes gynhyrchu ar gyfer lloriau lamedig. Mae'r rhan hon o'r cais yn ofynnol er mwyn dod â'r safle o dan reolaeth reoleiddiol un rheoleiddiwr, sef Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae cynnig ar gyfer rhes gynhyrchu ar gyfer byrddau haenau cyfeiriedig newydd yn y safle hefyd yn ffurfio rhan o'r cais.

3. Y CYFARWYDDIADAU

Mae modd gwneud cais i lawrlwytho'r tri chyfarwyddyd gan permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn nodi'r gweithgareddau sydd i'w rheoleiddio, ac yn datgan yn eglur pa gorff cyhoeddus sydd yn gyfrifol am reoleiddio'r gwahanol ddsbarthiadau o weithgareddau. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r cyrff cyhoeddus hynny ynglŷn â sut i gynnal eu swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys cyfarwyddo y dylai swyddogaethau un awdurdod gael eu cyflawni gan awdurdod arall yn lle.

Dyma yw'r achos yn y Gosodiad hwn ers 2003, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnal swyddogaethau rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rhai gweithgareddau penodol, fel a nodir yn y cyfarwyddyd. Mae'r swyddogaethau yn dychwelyd i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Gyfarwyddyd 2018, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal swyddogaethau rheoleiddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n weddill yn y Gosodiad.

Yn ogystal, mae Cyfarwyddyd 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gyfuno'r trwyddedau presennol er mwyn cael un yn unig.

Y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n darparu ar gyfer y broses gyfuno.⁵Gall y broses hefyd gynnwys amrywiadau i'r drwydded y mae'r rheoleiddiwr wedi ei gosod. Os yw'r amrywiadau hynny'n cynrychioli 'newid sylweddol', yna caiff ymgynghoriadau cyhoeddus ei gynnal.⁶

Mae dau ddull o ddechrau gwneud amrywiadau i drwydded: 1) gall y rheoleiddiwr benderfynu amrywio'r drwydded, neu 2) gall y gweithredwr wneud cais i amrywio ei drwydded. Mae'r rheoliadau yn trin y ddau fath o amrywiad ar wahân i'w gilydd, ond mae'r ddau ohonynt yn cychwyn gofynion ymgynghori â'r cyhoedd os ydynt yn cynrychioli 'newid sylweddol', fel y diffinnir yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. Yn ystod y cam cynnar hwn, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru mewn sefyllfa i wybod a fydd unrhyw amrywiadau newid sylweddol y bydd yn dymuno eu gosod ei hun, ond ei farn yw y bydd yr amrywiad y mae'r gweithredwr wedi gwneud cais amdano yn cael ei ystyried yn 'newid sylweddol'. Ar y sail honno, gweithredir darpariaethau'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd o ran y cais am amrywiad.

4. Y CAIS AM AMRYWIAD

Mae modd gwneud cais i lawrlwytho'r cais a wnaed gan Kronospan Ltd gan [permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](https://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/permittingconsultations)

Fel y nodir uchod, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y bydd yr amrywiad y gwnaed cais amdano yn cynrychioli 'newid sylweddol' ac felly darperir ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd – y mae manylion am hyn isod.

Bydd cydymffurfiaeth â'r Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol⁷ wedi'i chynnwys wrth ystyried y cais am amrywiad, sy'n gofyn am gymhwys

⁵ Rheoliad 18, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016.

⁶ Rheoliad 20, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, ac Atodlen 5 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

⁷ Yn enwedig Erthygl 20, y Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol.

safonau'r technegau gorau sydd ar gael ar hyn o bryd⁸ (gweler ymhellach isod).

Gellir ystyried safonau'r technegau gorau sydd ar gael sy'n parhau o fewn eu cyfnodau gweithredu yn y camau cyfochrog o'r broses addasu a nodir yn y papur hwn, ond bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio cydymffurfiaeth lawn â'r Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol o fewn yr amserlenni a nodir.

5. Y TECHNEG AU GORAU SYDD AR GAEL

Gan gydnabod bod mathau penodol o lygredd yn symud yn rhydd ar draws ffiniau cenedlaethol, gwnaeth y Deyrnas Unedig, fel aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, gytuno i gymhwyso safonau amgylcheddol cyffredinol penodol o ran allyriadau gan weithgareddau diwydiannol. Yn benodol, gwnaeth gytuno i roi cyfyngiadau allyriadau ar waith ar gyfer sylweddau penodol, a thechnegau priodol ar gyfer cyflawni'r cyfyngiadau hynny fel y cytunir ac fel y nodir yn y dogfennau a ddrafftwyd gan arbenigwyr yn y sectorau diwydiannol amrywiol. Cyfeirir at y dogfennau hyn yn y papur hwn fel 'Nodiadau Cyfeirio'r Technegau Gorau sydd ar Gael' ('nodyn BREF') ac maen nhw'n cael eu hadolygu'n achlysurol.

Mae'n rhaid cymhwyso'r casgliadau a'r cyfyngiadau a nodir yn y nodiadau hynny ar draws y sectorau diwydiannol perthnasol o fewn amserlen benodol a ddyluniwyd i roi digon o amser i adolygu trwyddedau ac i'r gweithredwyr addasu neu newid eu prosesau a pheiriannau.⁹

Mae'r Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo nodyn BREF sy'n ymwneud â phrif weithgarwch gosodiad yn cael ei gyhoeddi, fod yn rhaid adolygu amodau'r drwydded ar gyfer y gosodiad hwnnw a chydymffurfio ag unrhyw newidiadau o fewn pedair blynedd o gyhoeddi'r nodyn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymwybodol fod tri nodyn BREF yn berthnasol i'r gweithgareddau amrywiol yn y Gosodiad hwn. Mae un yn ymwneud â phrif weithgarwch y Gosodiad a dau yn ymwneud â gweithgareddau eilaidd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Prif weithgarwch:

Cynhyrchu paneli pren – cyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2015, gyda dyddiad cydymffurfiaeth perthnasol o 24 Tachwedd 2019

⁸ Erthygl 14, y Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol.

⁹ Gweler Erthygl 21, y Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol, yn benodol.

Gweithgareddau eilaidd:

Cynhyrchu cyfeintiau mawr o gemegion organig – cyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2017 (gyda dyddiad cydymffurfiaeth y prif weithgarwch o 7 Rhagfyr 2021)

Trin dŵr gwastraff cyffredinol a gwastraff nwy / systemau rheoli yn y sector cemegion

Noder: Ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd:

Rhagwelir y bydd y safonau amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn y nodiadau BREF yn ffurfio rhan o'r hyn a elwir yn 'cyfraith yr UE a gedwir' yn Neddf yr UE (Ymadael) 2018, ac felly byddant yn parhau'n gymwys pe bai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Nid yw'n hysbys sut y bydd nodiadau BREF yn y dyfodol yn cael eu defnyddio yn y DU.

6. Y CAMAU YSTYRIED

Yn gryno, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y tasgau canlynol:

- 1 Cydymffurfio â Chyfarwyddyd 2018 drwy gyfuno'r trwyddedau presennol yn un. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn ymarfer gweinyddol i raddau helaeth, na ddylai achosi unrhyw newidiadau sylweddol oni bai am y newid sydd ei angen o ran rheoleiddiwr. O ganlyniad, nid ydym yn rhagweld cynnwys hyn fel rhan o'r broses ymgynghori
- 2 Penderfynu ar y cais am amrywiad a wnaed gan y gweithredwr
- 3 Adolygu amodau'r drwydded yn erbyn prif weithgarwch y nodyn BREF
- 4 Ystyried gweithgareddau eilaidd y nodiadau BREF

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y gellir cyflawni'r tasgau mewn un broses barhaus, gyda chfres o amrywiadau cydamserol i'r drwydded.

Ar yr adeg hon o'r broses, rydym yn rhagweld dau gam:

Bydd Cam 1 yn cynnwys:

- i) cyfuno'r trwyddedau'n un
- ii) ystyried cais y gweithredwr am amrywiad
- iii) amodau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r nodyn BREF i'r prif weithgarwch

Rydym yn rhagweld y bydd Cam 1 wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2019, er y gallai hyn fod yn agored i newid.

Bydd Cam 2 yn cynnwys:

- i) ystyried amrywiadau pellach sydd eu hangen i gydymffurfio â'r nodiadau BREF ar gyfer y gweithgareddau eilaidd

Rydym yn rhagweld y bydd y cam hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2019. Unwaith eto, mae'n bosibl y bydd angen ehangu'r cyfnod penderfynu o dan yr amgylchiadau.

7. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

Ymgynghoriad Cam 1

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol ar y cais am amrywiad yn dechrau ar 5 Medi 2018, pan fydd hysbyseb yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mewn papur newyddion. Bydd digwyddiad galw heibio yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Neuadd Plwyf y Waun, rhwng 2pm ac 8pm ar 19 Medi. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol yn dod i ben ar 19 Hydref 2018. Bydd y cam ymgynghori hwn yn cynnwys ystyried y 'Technegau Gorau sydd ar Gael' mwyaf addas, fel y nodir yn y Nodyn BREF am y prif weithgarwch y cyfeirir ato uchod (creu paneli pren).

Byddwn yn ymgynghori ar ein penderfyniad drafft terfynol am yr amrywiad. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi hysbyseb arall ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, a bydd y cyfnod ymgynghori â'r cyhoedd yn para am 28 diwrnod yn olynol. Ar ôl hynny, byddwn yn cyhoeddi'r drwydded gyfunol ac amrywiol gyntaf, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn ddarostyngedig i ystyriaethau Cam 2.

Ymgynghoriad Cam 2

Bydd y cam hwn yn ymdrin ag unrhyw newidiadau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r nodiadau BREF am y gweithgareddau eilaidd yn unig (cynhyrchu cyfeintiau mawr o gemegion organig a thrin dŵr gwastraff cyffredinol a gwastraff nwy / systemau rheoli yn y sector cemegion).

Ar yr adeg hon, nid yw'n bosibl nodi dyddiadau penodol ar gyfer y cam ymgynghori hwn. Fodd bynnag, caniateir cyfnod o 28 diwrnod unwaith y bydd amrywiad drafft yn barod. Ar ôl hynny, byddwn yn cyflwyno trwydded derfynol – rydym yn rhagweld y bydd hyn erbyn diwedd 2019.

8. CASGLIADAU

Trwy gynnal proses fel yr un rydym wedi nodi fan hyn, rydym yn ystyried y bydd modd i ni gyflawni trwydded gyfunol, amrywiol sy'n cydymffurfio erbyn diwedd 2019.